

Mannau Addoli



Mae addoldai ymhlith adeiladau hanesyddol hynaf a mwyaf annwyl y DU.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ers 1995 rydym wedi buddsoddi mwy na **£970 miliwn mewn addoldai ledled y DU.**

Mae ein cyllid wedi helpu i warchod ac adfer adeiladau fel y gall y gymuned ehangach eu mwynhau. Gyda'n cefnogaeth ni, mae miloedd o bobl o bob ffydd wedi dod â threftadaeth eu mannau addoli yn fyw unwath eto.

Yn yr Alban, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Historic Environment Scotland i ddarparu cyllid ar gyfer addoldai.

Beth rydym yn ei gefnogi?

Mae'r prosiectau rydym yn eu cefnogi yn helpu cymunedau lleol ac ehangach i ymgysylltu â threftadaeth. Rydym yn ariannu:

- gweithgareddau sy'n cysylltu pobl â threftadaeth

NEU

- gweithgareddau sy'n cysylltu pobl â threftadaeth ac yn cynnwys rhywfaint o waith cyfalaf i adeiladwaith hanesyddol

Ffabrig hanesyddol adeilad yw'r deunyddiau adeiladu gwreiddiol neu hanesyddol arwyddocaol neu'r gwaith adeiladu.

Yr hyn a ddisgwyliwn gan brosiectau a ariennir gennym

Drwy ehangder ein cyllid, rydym am helpu addoldai i ddod yn fwy gwydn a'u hadeiladau'n wirioneddol gynaliadwy. Gweler ein [canllawiau arfer da ar gydnerthedd sefydliadol](#) i gael rhagor o fanylion.

Partneriaethau

Rydym am weld addoldai'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol eraill fel y gallant feithrin eu gallu, ymgorffori eu prosiectau yn y gymuned leol a sicrhau effeithiau mwy hirdymor.

Rydym yn hoffi gweld grwpiau ffydd yn gweithio gyda grwpiau nad ydynt yn rhai ffydd. Gall hyn gryfhau'r gr?p ffydd drwy ddod â sgiliau a gallu ychwanegol i'r prosiect, a sicrhau bod y prosiect yn eiddo i'r gymuned gyfan ac yn ei werthfawrogi. Gall y partneriaethau newydd hyn fod â manteision hirdymor i'r man addoli.

Gweithgareddau

Pan fyddwch yn gwneud ymholiad i ni, dywedwch wrthym am y **gweithgareddau ymgysylltu â threftadaeth a'r cynulleidfaoedd rydych chi am eu targedu**. Dywedwch wrthym hefyd a oes unrhyw beth arbennig neu anarferol am **adeiladu'r** adeilad.

Rydym yn disgwyl i gost cynnal gweithgareddau gael ei chynnwys yn y gyllideb fel rhan allweddol o'ch cais am gyllid.

Atgyweiriadau

Nid ydym yn ariannu prosiectau sydd ar gyfer atgyweiriadau neu addasiadau i adeiladwaith hanesyddol yn unig.

Pa fath o brosiect y gallem ei ariannu?

- archwilio'r adeilad a dod ag ef yn fyw drwy ddehongliad newydd, ochr yn ochr â'r gwaith atgyweirio angenrheidiol
- cynnal gweithgareddau dysgu treftadaeth a digwyddiadau cymunedol, a chreu lle iddynt drwy wneud mân newidiadau i'r adeiladwaith
- archwilio, gwarchod a dehongli bioamrywiaeth mannau allanol gan gynnwys mynwentydd
- darparu gwell mynediad i dreftadaeth drwy ddulliau digidol
- digwyddiadau cymunedol i gynnwys pobl wrth gofnodi bod clychau, organau, deorfeydd a byrddau cymwynaswyr yn cael eu tynnu, eu hatgyweirio a'u hailosod, ochr yn ochr â'r gwaith

atgyweirio

- cyfleoedd i bobl ddysgu am y celfyddyd mewn addoldai, ochr yn ochr â rhaglen gadwraeth, megis gwydr lliw, cofebau a henebion, paentiadau wal, cerfluniau, gosodiadau hanesyddol neu graffiti
- darganfod, gwarchod a dysgu am y creaduriaid sy'n byw yn yr adeilad, fel ystlumod neu adar ysglyfaethus
- gweithgareddau i helpu eich grŵp i reoli treftadaeth yn fwy effeithiol, megis ymchwilio i gynulleidfaoedd presennol a newydd, neu roi cynnig ar ddulliau newydd o godi arian neu gynhyrchu incwm

Sut i gael cyllid

Mae gan bob un o'n rhaglenni ariannu ganllawiau manwl ac adnoddau pellach i'ch helpu i wneud cais. [Darganfyddwch a ydych yn gymwys i gael cyllid.](#)

Efallai y byddwch hefyd am archwilio'r [cynllun grantiau Mannau Addoliad Rhestredig](#).